

# Adolygiad o Ddysgu Digidol (Cymru)

Mai 2021

## Cynnwys

Rhagarweiniad .....	1
Dysgu Digidol.....	1
Nodau ac amcanion yr adolygiad .....	2
Cylch gorchwyl.....	2
Ymgysylltiad myfyrwyr.....	2
Y dull adolygu yn fanwl .....	2
Trefniadau adolygu .....	4
Allbynnau adolygiadau .....	5
Atodlen A: Rhestr gwestiynau ar gyfer yr adolygiad o ansawdd dysgu digidol.....	7
Atodlen B: Rhestr dystiolaeth ar gyfer adolygiadau darparwyr .....	9
Atodlen C: Canllawiau ar gyfer sefydliadau addysg uwch: Cyfarfodydd adolygu ar-lein .....	11
<b>Cyfarfodydd yn ystod adolygiad</b> .....	11
<b>Sut i ymuno â'r cyfarfod</b> .....	11
<b>Ymddygiad yn y cyfarfod</b> .....	11
<b>Atodlen 1: Hintiau handi</b> .....	13
<b>Atodlen 2: Ynglŷn â'r tîm adolygu</b> .....	15
Atodlen D: Llinell amser a gweithgareddau adolygiad o ddarparwyr.....	16

## Rhagarweiniad

1 Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (QAA) yn bartner ym mhrosiect cydweithredol y Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch (HEIRF) dan arweiniad Prifysgol Wrecsam Glyndŵr ar ran Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru (LTN). Nod cyffredinol y prosiect yw cynnal a gwella dysgu digidol ledled Cymru. Rôl QAA yw ymgymryd ag adolygiad thematig er mwyn deall y gwaelodlin o ran ansawdd ar gyfer dysgu digidol. Cynlluniwyd yr adolygiad i gyfrannu at ddatblygiad cynllun gwella dysgu digidol ar draws y sector ar gyfer y ddwy flynedd academiaidd nesaf, a bydd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno mewn Digwyddiad Rhannu Arfer wedi'i drefnu gan QAA ym mis Medi 2021. Cynlluniwyd y dull o weithredu i alluogi cynnal adolygiad tebyg ar ddiwedd y prosiect yn 2022-23 i fesur cynnydd yn erbyn y cynllun gwella dysgu digidol (cyn belled â bod arian ar gael). Bydd QAA yn adrodd yn ôl ar feysydd arfer sy'n dod i'r amlwg a datblygiadau sy'n ymwneud â dysgu digidol ar lefel sector. Nid yw'n adolygiad rheoliadol ac ni fydd yn gwneud dyfarniadau nac yn darparu deilliannau ar gyfer darparwyr unigol.

2 Daeth pandemig COVID-19 â heriau uniongyrchol i'r sector, ynghyd â'r angen am ymateb cyflym gan addasu a gwella dulliau dysgu ac addysgu; hyn yn ogystal â galluogi profiad cyffredinol myfyrwyr trwy amgylchedd wedi'i wella trwy dechnoleg. Mae'r adolygiad thematig hwn yn cynnig cyfle i ddarparwyr rannu eu taith, eu mewnwelediadau ac arferion sy'n datblygu, er mwyn ffurfio sail i welliannau mewn dysgu digidol ar gyfer y dyfodol. Cynlluniwyd yr adolygiad i ysgafnhau'r baich ar ddarparwyr, o ran paratoi ac ymgysylltu. Yn hyn o beth, mae'r adolygiad yn amrywio'n sylweddol o ran ei ddyluniad o gymharu ag adolygiadau sicrhau ansawdd blaenorol. Yn ogystal â hynny, mae QAA wedi datblygu cyfres o opsiynau ar gyfer ymgysylltu â'r adolygiad hwn, er mwyn sicrhau bod darparwyr yn cael cyfle i wneud y gorau o'r broses i gyfrannu at y cynllun gwella digidol ar draws y sector a ledled Cymru.

## Dysgu Digidol

3 Ym mis Mehefin 2020, Cyhoeddodd QAA [Adeiladu Tacsonomeg ar gyfer Dysgu Digidol](#) sy'n nodi diffiniadau gweithredol ar gyfer termau allweddol mewn amgylchedd dysgu digidol. Mae'r diffiniad ar gyfer 'digidol' wedi'i nodi fel a ganlyn:

*Mae'r term 'digidol' yn derm ymbarél sy'n cael ei ddefnyddio'n gynyddol yn y sector addysg uwch. Mae cysylltiad annatod rhyngddo â storio data, ond mae wedi datblygu fel term i olygu unrhyw beth sy'n ymwneud â defnyddio technoleg gyfrifiadurol, fel y gwelir yn y defnydd a wneir o'r termau 'sgiliau digidol' neu 'llythrennedd digidol'... Mae'n hysbys y gellir cyrchu gwybodaeth ddigidol oddi ar-lein a gellir ymgysylltu â gwybodaeth o'r fath mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd (ar y safle, neu oddi ar y safle, yn bersonol neu o bell). Mae ffyrdd digidol o weithio'n dal i fod yn gysylltiedig â storio a defnyddio gwybodaeth, felly nid oes iddynt unrhyw awgrym o fod yn annilys. O'r herwydd, ymddengys nad oes yr un arwyddocâd yn perthyn i 'ddigidol' ag 'ar-lein' neu 'rithwir', ac yn hytrach mae'n ymddangos ei fod yn derm mwy niwtral. Gallai ei ddefnyddio, felly, roi mwy o gyfle i ddarparwyr fynd ymhellach na defnyddio'r term yn unig, a mynegi sut olwg fyddai ar ddull dysgu digidol ar gyfer eu myfyrwyr.*

4 Nid oes diffiniad a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer y term 'digidol' mewn perthynas â dysgu, ond mae'r diffiniad cryno hwn yn darparu man cychwyn ar gyfer yr adolygiad.<sup>1</sup> Mae

---

<sup>1</sup> Am ddiffiniadau pellach, gan gynnwys termau perthnasol fel *ar-lein*, *rithwir*, *cymysg* a *hybrid*, yn ogystal â *dysgu o bell*, gweler *Adeiladu Tacsonomeg ar gyfer Dysgu Digidol*, ar gael yn: [www.qaa.ac.uk/docs/qaa/guidance/building-a-taxonomy-for-digital-learning.pdf](http://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/guidance/building-a-taxonomy-for-digital-learning.pdf)

QAA yn cydnabod bod fframweithiau a strategaethau dysgu digidol wedi'u haddasu a'u hail-wampio o ganlyniad i'r pandemig, a bydd dulliau 'digidol' yn parhau i esblygu a datblygu er budd myfyrwyr.

## Nodau ac amcanion yr adolygiad

5 Nod cyffredinol yr adolygiad yw hysbysu'r sector ynghylch ansawdd dysgu digidol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2020-21. I wneud hyn, mae'r adolygiad yn bwriadu:

- darparu gwerthusiad sylfaenol ynghylch pa mor dda y mae'r sector yn rheoli a sicrhau ansawdd addysgu a dysgu digidol
- gwerthuso'r cymorth a ddarperir i fyfyrwyr i'w galluogi i wneud cynnydd, llwyddo a gwneud y gorau o'u cyflawniad trwy ddysgu digidol

6 I gyflawni hyn, bydd QAA yn gwerthuso sut mae darparwyr yn rheoli ansawdd dysgu digidol a nodi arferion sy'n dod i'r amlwg a gwelliannau. O ganlyniad, bydd yr adolygiad yn darparu trosolwg o gryfderau'r sector, meysydd i'w datblygu, a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cydweithredol.

## Cylch gorchwyl

7 Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar y prosesau sydd ar waith i sicrhau ansawdd addysgu a dysgu digidol er mwyn i bob myfyriwr addysg uwch lwyddo. Mae'r adolygiad yn berthnasol i bob darpariaeth Saesneg a Chymraeg ar lefelau 4 i 8 o'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ) ac mae'n cynnwys pob myfyriwr addysg uwch, waeth beth yw eu lefel, modd, iaith neu leoliad astudio, gan gynnwys myfyrwyr sy'n astudio gyda phartneriaid lleol trwy drefniadau wedi'u dilysu / rhyddfreinio. **(Dylid nodi nad yw darpariaeth Addysg Draws-Wladol o fewn cwmpas yr adolygiad hwn.)** Mae'r cylch gorchwyl yn cynnwys darpariaeth yn y gweithle a darpariaeth arall sy'n dwyn credydau. Mae hyn yn ffurfio lefel gwaelodlin ar gyfer sicrhau ansawdd y gellir cynnal adolygiad dilynol yn ei erbyn, gan gynnwys effaith cydweithredu a rhannu arfer sy'n deillio o brosiect cydweithredol ehangach y Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch (HEIRF).

## Ymgysylltiad myfyrwyr

8 Ni fydd QAA yn ymgysylltu â myfyrwyr yn uniongyrchol trwy gydol yr adolygiad hwn oherwydd cainc o waith ar wahân o fewn y prosiect cyffredinol sy'n cael ei gynnal gan Brifysgol Abertawe (er y gallai darparwyr fod am gynnwys myfyrwyr / cynrychiolwyr myfyrwyr wrth ateb y rhestr gwestiynau yn Atodlen A - naill ai ar ffurf atebion ysgrifenedig neu trwy ddeialog gyda'r adolygydd fel sy'n berthnasol). Mae'r prosiect sy'n cael ei gynnal gan Brifysgol Abertawe yn werthusiad o ganfyddiadau myfyrwyr ynghylch eu profiad dysgu digidol yn ystod 2020-21 trwy grwpiau ffocws ac arolygon. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn hefyd yn cael eu cyflwyno yn y Digwyddiad Rhannu Arfer a drefnir gan QAA ym mis Medi 2021, a bydd iddo'r potensial i gyfrannu at allbynnau'r adolygiad. Mae QAA yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Abertawe i sicrhau bod y ddau brosiect yn ategu ei gilydd, ac nad ydynt yn dyblygu eu hymgysylltiad â darparwyr.

## Y dull adolygu yn fanwl

9 Mae'r dull ar gyfer yr adolygiad yn seiliedig ar gwblhau nodiadau strwythuredig gan yr adolygydd ar gyfer pob darparydd, sydd yn eu tro yn ffurfio sail i'r adroddiad ar y sector. Mae dwy elfen allweddol yn sail i'r nodiadau strwythuredig: rhestr gwestiynau a sylfaen dystiolaeth. Er bod nifer o opsiynau o ran sut y gall darparwyr ymgysylltu â'r broses adolygu, mae'r sylfaen dystiolaeth yn elfen gyffredin o'r broses. Ar y llaw arall, gall cwblhau ymatebion i'r rhestr gwestiynau fod yn sail i adolygiad wrth-y-ddesg ac ymgysylltiad â

darparwydd neu, lle mae'r darparwydd yn dewis cwrdd â'r adolygydd, gall ffurfio canolbwynt ar gyfer y drafodaeth a chwblhau nodiadau strwythuredig gan yr adolygydd (gweler 'trefniadau adolygu' i gael mwy o fanylion am yr opsiynau sydd ar gael i ddarparwyr).

## Rhestr gwestiynau

10 Mae'r adolygiad yn defnyddio [Cymorth ac arweiniad COVID-19](#) QAA fel sail, yn benodol y [Cwestiynau sy'n Sail i Becyn Cymorth ar gyfer Gwella Ansawdd mewn Amgylchedd Digidol](#) (dogfen ar gyfer y sector cyfan a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020).<sup>2</sup> Mae'r ddogfen ganllaw hon yn darparu awgrymiadau allweddol ar gyfer cynnal ansawdd mewn amgylchedd digidol, sydd wedi'i strwythuro o amgylch pum maes. At ddibenion yr adolygiad hwn, byddwn yn canolbwyntio ar yr ystyriaethau sy'n ymwneud yn benodol ag ansawdd dysgu myfyrwyr. Mae rhestr gwestiynau cyffredin, wedi'i theilwra o'r ddogfen hon, wedi cael ei datblygu i gynrychioli prwpas yr adolygiad orau: casglu gwybodaeth am y gwaelodlin ansawdd ar gyfer dysgu digidol er mwyn ffurfio sail i'r cynllun gwella dysgu digidol ar draws y sector. Bydd y cwestiynau'n sail i'r trefniant adolygu waeth beth yw'r dull ymgysylltu a ddewisir.

11 Mae QAA wedi ymgynghori ynghylch y rhestr gwestiynau hon gyda detholiad o uwch-gysylltwyr ym maes ansawdd o fewn darparwyr er mwyn sicrhau bod y cwestiynau'n addas at y diben. Gellir gweld y rhestr lawn o gwestiynau yn Atodlen A. Bydd adolygwyr yn cofnodi canfyddiadau'r adolygiad gan ddefnyddio ffurflen wedi'i seilio ar y rhestr gwestiynau (nodiadau strwythuredig) - gweler 'Allbynnau'r adolygiad' i gael mwy o wybodaeth am y nodiadau strwythuredig.

## Sylfaen dystiolaeth

12 Nid oes unrhyw ofyniad i ddarparwyr lunio dogfen hunan-arfarniad. Fel adolygiad gwaelodlin, mae'r hyn a gyflwynir gan y darparwydd yn seiliedig ar set o ddogfennau safonol sydd wedi'u diffinio ymlaen llaw ac sy'n bodoli eisoes. Lluniwyd y rhestr dystiolaeth fel bod themâu'r cwestiynau'n cyfateb i'r dogfennau mwyaf priodol. Mae QAA hefyd wedi ymgynghori ag uwch-gysylltwyr ym maes ansawdd o fewn darparwyr i sicrhau bod y sail dystiolaeth yn addas at y diben ac yn lleihau faint o ddeunydd sydd angen ei gasglu a'r paratodau sydd angen eu gwneud ar gyfer yr adolygiad. Gellir gweld y rhestr dystiolaeth yn Atodlen B. Gan fod nifer o ddarparwyr wedi bod trwy Adolygiad Gwella Ansawdd (AGA) yn ystod y flwyddyn academaidd 2020-21, mae QAA yn rhoi cyfle i'r darparwyr hyn fapio eu sail wybodaeth o'r AGA i'r templed ar gyfer sail dystiolaeth ac ychwanegu gwybodaeth fwy diweddar / atodol fel sy'n briodol. Gall darparwyr sydd wedi bod trwy AGA yn 2020-21 hefyd gymryd rhan yn yr adolygiad trwy ddeialog gyda'r adolygydd (gweler opsiynau 3 a 4 o dan 'trefniadau adolygu').

13 Mae darpariaeth yn y templed ar gyfer y rhestr dystiolaeth i groesgyfeirio'r dystiolaeth i'r cwestiynau. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai darparwyr gyfeirnodu'r adrannau mwyaf perthnasol o ddogfennau, yn enwedig gan y gallent ymwneud â nifer o wahanol gwestiynau'r adolygiad, neu lle gallai adran benodol o'r ddogfen fod yn uniongyrchol berthnasol i ddysgu digidol. Mae croeso i ddarparwyr ychwanegu at y rhestr dystiolaeth os ydynt yn dymuno gwneud hynny, gan gofio diben yr adolygiad a'r angen i'w wneud yn ymarferiad y gellir cadw trefn arno.

14 Bydd angen i'r darparwydd uwchlwytho ei sail dystiolaeth; mae'r amseriad ar gyfer hyn wedi'i nodi yn Atodlen D, ac mae'n dibynnu ar y dull o ymgysylltu â'r adolygiad mae'r

---

<sup>2</sup> Cyhoeddwyd y ddogfen hon gan QAA ym mis Gorffennaf 2020 yn seiliedig ar weminar gan QAA i'r Aelodau ar 'Gynnal Ansawdd mewn Amgylchedd Dysgu Ar-lein' ac mae'n cynnig awgrymiadau i gynorthwyo darparwyr i ddatblygu pecynnau cymorth ar gyfer cynnal ansawdd eu dulliau dysgu digidol.

darparydd wedi'i ddewis. Bydd yr union ddyddiad ar gyfer gwneud hyn wedi'i gadarnhau gan QAA trwy ohebiaeth sy'n cynnwys cyfarwyddiadau, gan gynnwys cyfrinair, ar sut i gwblhau'r uwchlwytho.

15 Rydym yn sylweddoli y gallai fod gan ddarparwyr ddarn cyfatebol o dystiolaeth neu eu bod yn strwythuro eu dogfennaeth mewn gwahanol ffyrdd. Oherwydd hyn, gofynnir i ddarparwyr rifo a chofnodi enw eu dogfen yn erbyn y rhestr dystiolaeth.

16 Mae'n bosib y bydd rhai dogfennau ar gael i'r cyhoedd. Os felly, mae'n briodol darparu'r cyfeiriad ar gyfer y dudalen we yn hytrach na chyflwyno'r ddogfen. Efallai y bydd darparwyr am ei gwneud yn bosib i'r adolygydd gael mynediad i rwydwaith allrwyd, neu hyd yn oed amgylchedd dysgu rhithwir, os yw hwn yn ddull mwy cyfleus o ddarparu mynediad i'r dystiolaeth.

## **Cyfranogwyr allweddol**

### **Cyswllt y darparydd**

17 Gwahoddir y darparydd i enwebu cyswllt allweddol ar gyfer yr adolygiad. Rôl y cyswllt allweddol yw:

- gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer QAA trwy gydol yr adolygiad, gan gynnwys uwchlwytho tystiolaeth, trefnu'r amserlen ar gyfer yr ymweliad ar-lein a'r rhaglen ar gyfer cyfarfodydd (lle bo hynny'n briodol)
- darparu cyngor ac arweiniad i QAA a'r adolygwyr ar strwythurau, polisiau a gweithdrefnau'r darparydd, gan gynnwys cyflenwi a / neu sicrhau mynediad prydlon at wybodaeth ychwanegol os oes angen
- darparu cyngor ac arweiniad ynghylch a yw'r darparydd yn dymuno cymryd rhan yn yr adolygiad trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg o ran eu dull o ymgysylltu mynychu cyfarfodydd adolygu ar-lein (lle bo hynny'n briodol) i ddarparu cyfathrebu a dealltwriaeth i'r darparydd.

### **Adolygwyr**

18 Bydd adolygwyr yn cael eu tynnu o gronfa bresennol QAA o adolygwyr hyfforddedig ac yn cael eu recriwtio ar sail eu harbenigedd a'u gwybodaeth am ddysgu digidol. Bydd un adolygydd yn cael ei benodi ar gyfer pob darparydd.

### **Aelod o staff QAA**

19 Bydd aelod o staff QAA yn darparu hyfforddiant a chymorth i adolygwyr, ynghyd â chyngor ac arweiniad i ddarparwyr yn ôl yr angen.

## **Trefniadau adolygu**

20 Mae gan ddarparwyr nifer o opsiynau i ddewis o'u plith ar gyfer eu hymgysylltiad â'r adolygiad.

### **Opsiwn 1. Adolygiad wrth-y-ddesg**

Mae'r darparydd yn cwblhau'r templed ar gyfer sail dystiolaeth, yn ogystal ag ymatebion i'r cwestiynau, ac yn uwchlwytho tystiolaeth berthnasol i ategu'r ymatebion i'r cwestiynau. Mae'r adolygydd yn cwblhau nodiadau strwythuredig ar sail yr hyn a gyflwynwyd.

## **Opsiwn 2. Adolygiad wrth-y-ddesg ar gyfer darparwyr sydd wedi mynd trwy AGA yn 2020-21**

Mae'r darparwydd yn mapio'r sail wybodaeth o'r AGA i'r templed ar gyfer y sail dystiolaeth ac yn nodi gwybodaeth fwy diweddar / atodol, fel sy'n briodol. Gall y darparwydd hefyd gyflwyno tystiolaeth ychwanegol os yw'n dymuno gwneud hynny. Gall y darparwydd wedyn ddewis adolygiad sy'n gyfangwbl wrth-y-ddesg, lle byddai'r adolygydd yn cwblhau nodiadau strwythuredig ar sail tystiolaeth o'r AGA. Fodd bynnag, gall y darparwydd hefyd gynnal deialog gyda'r adolygydd os yw'n dymuno (Dewisiadau 3 a 4).

Yn achos adolygiadau wrth-y-ddesg, bydd y nodiadau strwythuredig sy'n deillio o'r broses honno'n cael eu rhannu gyda'r darparwydd i'w gwirio am gywirdeb ffeithiol. Dyma pryd gellir codi pwyntiau ar gyfer eglurhad a gofyn am dystiolaeth ychwanegol. Bydd y ceisiadau hyn yn cael eu cadw i'r lefel isaf bosib.

## **Opsiwn 3. Ymgysylltu â'r adolygydd trwy ddeialog**

Mae'r darparwydd yn cwblhau'r rhestr dystiolaeth ac yn cymryd rhan mewn trafodaeth gyda'r adolygydd i ddarparu ymatebion i gwestiynau. Gall darparwyr gynnig rhai atebion ymlaen llaw os ydyn nhw am wneud hynny. Ni fydd y ddeialog ar-lein hon gyda'r adolygydd yn para mwy na hanner diwrnod.

## **Opsiwn 4. Ymgysylltu â'r adolygydd**

Ar gyfer yr opsiwn hwn, mae gan y darparwydd gyfle i ymgysylltu ag adolygydd QAA, lle mae wedi cwblhau'r rhestr dystiolaeth a'r ymatebion i gwestiynau. Fel Opsiwn 3, gall yr ymgysylltiad hwn bara hyd at hanner diwrnod.

21 Cynhelir pob ymgysylltiad ar gyfer yr adolygiad ar-lein. Gweler Atodlen C am y protocol ar gyfer cynnal cyfarfodydd adolygu ar-lein. Mater i'r darparwyr yw penderfynu pa aelodau staff fyddai'n cwrdd â'r adolygydd a pha adrannau o'r rhestr gwestiynau fyddai'n cael eu trafod ym mha gyfarfod. Rydym yn rhagweld y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu am awr neu awr a hanner, ac y gallai ymgysylltiad gymryd un neu ddau o gyfarfodydd. Bydd QAA yn cytuno ar ddyddiad ar gyfer ymgysylltu â'r adolygiad lle bydd darparwyr yn penderfynu ar naill ai Opsiwn 3 neu 4. Sylwer nad oes angen i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal yn olynol. Bydd QAA a'r adolygydd yn gwneud ymdrech i fod mor hyblyg â phosibl er mwyn gweithio o amgylch argaeledd staff.

22 Cyflwynir llinell amser fanwl ar gyfer y broses adolygu yn Atodiad D. Ar gyfer adolygiadau wrth-y-ddesg, rhoddir o leiaf tair wythnos i ddarparwyr baratoi. Pan fydd darparwyr yn ymgysylltu â'r adolygydd, mae'r cyfnod cyflwyno yn rhoi ystyriaeth i'r amser paratoi sy'n ofynnol gan yr adolygydd. Mewn sawl achos, bydd yr amserlen ar gyfer adolygiadau darparwyr yn caniatáu cyfnod paratoi hirach na'r hyn a awgrymir gan Atodiad D.

## **Allbynnau adolygiadau**

### **Arfer sy'n dod i'r amlwg**

23 Bydd adolygwyr yn gweithio gyda darparwyr i nodi 'arfer sy'n dod i'r amlwg' sy'n gysylltiedig â dysgu digidol. At ddibenion yr adolygiad hwn, diffinnir arfer sy'n dod i'r amlwg fel arfer sy'n gwneud cyfraniad arbennig o gadarnhaol neu arloesol i brofiad myfyrwyr o ran dysgu digidol ac sydd â'r potensial i fod o fudd i brofiad digidol myfyrwyr ledled Cymru. Yn dilyn ymgysylltiad adolygu, bydd QAA yn gweithio gyda darparwyr i ddatblygu astudiaeth achos ar eu harfer sy'n dod i'r amlwg. O'r herwydd, ni ddisgwylir i ddarparwyr ysgrifennu astudiaeth achos fel rhan o'u cyflwyniad. Gellir gofyn i ddarparwyr sydd wedi nodi

astudiaethau achos yn ymwneud ag arfer sy'n dod i'r amlwg eu cyflwyno yn Nigwyddiad Rhannu Arfer QAA ym mis Medi 2021.

### **Nodiadau strwythuredig ac adroddiad ar y sector**

24 Bydd yr adolygydd yn cynhyrchu nodiadau strwythuredig ar gyfer pob ymgysylltiad â darparwydd; ni chaiff y nodiadau hyn eu cyhoeddi. Mae nodiadau strwythuredig yn fwyaf perthnasol i adolygiadau lle mae'n ofynnol i'r adolygydd gwblhau ymatebion i'r cwestiynau, hynny yw, Opsiynau 2 a 3, ac i raddau llai Opsiwn 4. Ar gyfer Opsiwn 1, sef yr adolygiad wrth-y-ddesg, bydd cyflwyniad y darparwydd yn ffurfio prif sail y nodiadau strwythuredig, wedi'u hategu gan ddadansoddiad yr adolygydd, nodiadau ychwanegol a chyfeirnodau.

25 Bydd nodiadau gan ddarparwyr unigol yn cael eu rhannu er mwyn sicrhau cywirdeb ffeithiol ar ôl yr ymgysylltiad, a bydd fersiwn derfynol yn cael ei rhannu gyda'r darparwydd ar ddiwedd yr adolygiad. Mae croeso i ddarparwyr gyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar y pwynt hwn os teimlir y bydd yn gyfraniad defnyddiol at yr adroddiad ar y sector. Defnyddir y nodiadau strwythuredig i greu adroddiad ar gyfer y sector cyfan. Ni fydd darparwyr yn cael eu henwi'n unigol yn yr adroddiad oni bai bod cyfeiriad at enghraifft o arfer sy'n dod i'r amlwg. Gwneir yr holl argymhellion o'r adroddiad ar y sector cyfan ar lefel sector yn hytrach nag ar lefel darparwydd unigol.

### **Digwyddiad Rhannu Arfer**

26 Yn ogystal â rôl QAA yn yr adolygiad fel rhan o brosiect cydweithredol Cronfa Buddsoddi ac Adfer AU, mae QAA yn cynnal Digwyddiad Rhannu Arfer ar gyflawniadau a datblygiadau'r prosiect. O ganlyniad, bydd canfyddiadau'r adolygiad (gan gynnwys yr astudiaethau achos ar arfer sy'n dod i'r amlwg) yn cael eu hadrodd i'r Digwyddiad Rhannu Arfer sydd wedi'i drefnu ar gyfer Medi 2021. Mae'n bosib y bydd QAA yn gofyn i ddarparwyr wneud cyflwyniad ar eu harfer sy'n dod i'r amlwg yn y digwyddiad hwn. Bydd y Digwyddiad Rhannu Arfer yn adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r adolygiad thematig a'r prosiect canfyddiadau myfyrwyr, yn ogystal â chynnwys arbenigwyr rhyngwladol ar ddysgu digidol.

## **Atodlen A: Rhestr gwestiynau ar gyfer yr adolygiad o ansawdd dysgu digidol**

Os oes unrhyw enghreifftiau penodol o arfer sy'n dod i'r amlwg y gellir eu rhannu fel astudiaeth achos, cyfeiriwch at hyn fel rhan o'r adran/adrannau perthnasol. Gweler 'arfer sy'n dod i'r amlwg' yn y datganiad ar gyfer y dull o weithredu i gael mwy o wybodaeth.

### **Fframwaith Dysgu Digidol**

1. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar 'ddysgu digidol'. A yw hwn yn derm a ddefnyddir yn helaeth yn eich sefydliad, neu a fyddai'n well gennych chi ddefnyddio terminoleg arall?
2. Beth ydych chi'n ceisio'i gyflawni trwy strategaeth/fframwaith dysgu digidol y sefydliad?
3. A oes gennych chi unrhyw safonau gwaelodlin ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu digidol?
4. A ydych chi wedi canfod unrhyw fylchau o ran pa mor effeithiol y mae'r fframwaith dysgu digidol yn darparu ar gyfer yr holl fyfyrwyr sy'n astudio ar y campws ac i ffwrdd o'r campws?
5. Pa ddiweddariadau a wnaed i'ch polisiau a'ch gweithdrefnau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gynorthwyo a galluogi addysgu a dysgu digidol?
6. A ydych chi wedi addasu'r ffordd y mae adborth gan fyfyrwyr yn cael ei gasglu yn achos dysgu digidol?
7. Pa ddatblygiadau ydych chi wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol sy'n ymwneud â dysgu digidol neu'r seilwaith digidol?

### **Dysgu, addysgu ac asesu wedi'u canoli ar fyfyrwyr**

8. Sut ydych chi'n mesur ymgysylltiad myfyrwyr â dysgu digidol?
9. Rhowch enghraifft o newid a wnaed i ddysgu digidol o ganlyniad i adborth myfyrwyr.
10. Ym mha ffyrdd ydych chi wedi addasu sut caiff tasgau ymarferol mewn labordy, ymarfer clinigol a gwaith maes eu goruchwyllo yn sgil symud i amgylchedd digidol?
11. Sut ydych chi'n sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hasesu'n deg, waeth ble maen nhw'n astudio?
12. Pa heriau ydych chi wedi'u hwynebu o ran gosod asesiadau a diogelwch asesiadau?
13. Pa bolisiau a mecanweithiau sydd ar waith i fynd i'r afael ag anawsterau o ran tlodi digidol a/neu anghydraddoldeb digidol? Sut ydych chi'n mynd i'r afael â thlodi a/neu anghydraddoldeb digidol?
14. A oes unrhyw enghreifftiau penodol o arfer da y gellir eu rhannu ar gyfer astudiaeth achos sy'n darparu ymagweddiad arloesol at addysgu digidol a/neu asesu myfyrwyr, neu'r heriau a wynebwyd wrth ddefnyddio mathau penodol o asesu yn sgil symud i ddysgu digidol?



## **Staff addysgu**

15. Pa agweddau 'newydd' ar ddatblygiad staff sydd wedi'u cynnwys i gynorthwyo staff gyda gofynion dysgu digidol?
16. A allwch chi rannu enghreifftiau o ba mor effeithiol y mae staff academiaidd wedi bod wrth helpu i feithrin ymdeimlad o gymuned ddigidol a hunaniaeth carfan ymhlith myfyrwyr?
17. Sut ydych chi'n dynodi ac yn rhannu arfer da, a sut ydych chi'n adeiladu ar yr hyn rydych chi'n ei wneud o ran addysgu, dysgu ac asesu digidol?
18. Beth, os unrhyw beth, sy'n cael ei gynnwys ar gyfer addysgu a dysgu digidol yn y rhaglen datblygu a hyfforddi staff ar gyfer 2021-22?

## **Adnoddau dysgu a chymorth i fyfyrwyr**

19. Sut mae'r seilwaith technegol sydd gennych chi ar hyn o bryd yn sicrhau hygyrchedd adnoddau dysgu, deunyddiau a systemau asesu ar gyfer pob myfyriwr? A oes unrhyw feysydd ar gyfer datblygiad pellach wedi dod i'r amlwg?
20. Pa addasiadau oedd eu hangen i alluogi pob myfyriwr sy'n astudio neu'n cael ei asesu yn Saesneg neu'n Gymraeg i gymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau dysgu ac ymgymryd ag asesiadau?
21. Pa drefniadau sefydlu a rhai parhaus sydd ar waith i gynorthwyo myfyrwyr i ddefnyddio technoleg ddigidol a datblygu sgiliau a medrau i'w galluogi i ymgysylltu'n llwyddiannus fel rhan o gymuned ddysgu ar-lein?
22. Sut mae eich trefniadau cymorth wedi cael eu gwella i ddarparu ar gyfer llesiant myfyrwyr wrth iddynt symud i ddysgu digidol?

## **Y Gymraeg**

23. Pa heriau sydd i addysgu, dysgu ac asesu digidol trwy gyfrwng y Gymraeg, a sut bydd hyn yn ffurfio sail i'ch dull o weithredu wrth symud ymlaen?
24. Pa fecanweithiau sydd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod cyfleoedd astudio trwy'r Gymraeg yn cael eu cynnal? A allwch chi rannu enghreifftiau o sut rydych chi'n parhau i sicrhau cydraddoldeb o ran profiad a chyfle rhwng rhaglenni cyfrwng Saesneg a Chymraeg?

## Atodlen B: Rhestr dystiolaeth ar gyfer adolygiadau darparwyr

Lle maent ar gael, a fydddech cystal â darparu'r dogfennau diweddaraf (neu gyfwerth ar gyfer eich darparydd) i'n helpu i ddeall eich 'gwaelodlin' ar gyfer dysgu digidol yn eich sefydliad.

	<b>Dogfennaeth a gwybodaeth allweddol</b>
1.	Llywodraethiant a Strwythur Pwyllgorau
2.	Cynllun Strategol
3.	Strategaeth Dysgu ac Addysgu
4.	Strategaeth/Polisi Asesu neu gyfwerth, gan gynnwys unrhyw bolisiâu asesu sy'n benodol i'r Gymraeg
5.	Strategaeth ar gyfer Dysgu Cyfunol / O Bell / Digidol / E-Ddysgu, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ganllaw i staff os caiff ei darparu ar wahân
6.	Safonau gwaelodlin ar gyfer dysgu digidol
7.	Strategaeth TG
8.	Llawlyfr Sicrwydd Ansawdd
9.	Strategaeth/Polisi ar gyfer Darpariaeth Gydwethredol
10.	Siarter Myfyrwyr.
11.	Newidiadau penodol i'r Rheoliadau Academaidd yn sgil trefniadau cyflwyno hyblyg mewn ymateb i Covid-19, os yw hynny'n berthnasol
12.	Rhestr o raglenni cymeradwy a/neu addasiadau bach/mawr (gan gynnwys y math o newid) yn ystod 2019-20 a 2020-21
13.	Unrhyw gynlluniau gweithredu yn ystod 2019-20 a 2020-21 sy'n cynnwys camau gweithredu yn ymwneud â dysgu ac asesu digidol a/neu'r seilwaith digidol
14.	Polisi Datblygiad y Staff
15.	Rhaglen Ddatblygu Staff Corfforaethol 2019-20, 2020-21 a 2021-22 (os yw ar gael)
16.	Enghraifft: Rhaglen hyfforddi Ysgol/Cyfadrn i staff 2019-20, 2020-21 a 2021-22 (os yw ar gael)
17.	Polisi Llesiant a Chymorth i Fyfirwyr*
18.	Llyfrgell/Canolfan Ddysgu sy'n cynnig gwybodaeth/canllawiau cymorth i fyfirwyr ac adnoddau sy'n ymwneud â dysgu/technolegau/sgiliau digidol a.y.b.*
19.	Enghraifft: Canllawiau Iechyd a Diogelwch 2020-21 (ar gyfer gwaith labordy/tasgau ymarferol)*
20.	Enghraifft: Llawlyfr Ymarfer Clinigol 2020-21*

21.	Enghraifft: Llawlyfr Lleoliad Gwaith i Fyfyrrwyr 2020-21*
22.	Mynediad i Amgylchedd Dysgu Rhithwir (gan ddarparu enghreifftiau o ddogfennau sy'n wynebu myfyrrwyr, fel llawlyfrau i fyfyrrwyr ac ar gyfer rhaglenni, canllawiau modiwl, rhagwybodaeth am asesiadau a.y.b.).
23.	Nifer y myfyrrwyr sy'n astudio dramor ac ar raglenni cyfnewid yn ystod 2019-20, 2020-21 a 2021-22 (os yw'r wybodaeth hon ar gael)

\*Dogfennaeth/gwybodaeth sy'n debygol o fod ar gael trwy fynediad i ADRh.

## Atodlen C: Canllawiau ar gyfer sefydliadau addysg uwch: Cyfarfodydd adolygu ar-lein

Bwriad y Canllaw hwn yw rhoi amlinelliad o sut y gallwch chi ymuno â'r cyfarfodydd ar-lein a gynhelir fel rhan o adolygiad QAA o'ch sefydliad, i ateb cwestiynau cyffredin ac i rannu ein prif gynghorion. Dylid rhannu'r ddogfen hon gydag unrhyw staff, myfyrwyr neu randdeiliaid eraill yn y sefydliad sydd wedi cael gwahoddiad i fynyachu cyfarfod ar-lein gyda tîm adolygu QAA

Bydd yr holl gyfarfodydd ar-lein a gynhelir yn ystod adolygiad yn cael eu trefnu gan QAA a'u cynnal trwy blatfform a gymeradwyir gan QAA (fel arfer Microsoft Teams neu Zoom). Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd unrhyw gais gan y sefydliad i ddefnyddio platfform amgen yn cael ei ystyried. Byddem yn ddiolchgar pe bai sefydliadau'n cymryd camau priodol i sicrhau bod eu cyfranogwyr yn gyfarwydd â'r feddalwedd cyn yr adolygiad. Anogir sefydliadau i drefnu sesiwn briffio ar gyfer staff a myfyrwyr i helpu gyda hyn.

### Cyfarfodydd yn ystod adolygiad

Mae cyfarfodydd a gynhelir gan y tîm adolygu gyda staff, myfyrwyr a/neu randdeiliaid eraill yn rhan ffurfiol o'r adolygiad o sefydliad addysg uwch. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i'r tîm adolygu gymryd rhan mewn trafodaeth, ac felly mae'n bwysig bod pawb yn y cyfarfod yn cael cyfle i gyfrannu at y drafodaeth honno.

Bydd y rhaglen ar gyfer yr adolygiad wedi'i thrafod a'i chytuno rhwng y tîm adolygu a'r sefydliad sy'n cael ei adolygu. Bydd QAA wedi anfon manylion enwau a/neu rolau pobl y maent am gwrdd â nhw yn ystod yr adolygiad i'ch cyswllt/hwylusydd sefydliadol. Mae'r cyswllt sefydliadol yn gyfrifol am sicrhau bod gofynion y tîm yn cael eu bodloni, am anfon ymlaen manylion unrhyw wahoddiad i gyfarfodydd a darparu rhestr o enwau i'r Swyddog QAA cyn yr ymweliad.

Mae manylion adolygiadau QAA a rolau adolygwyr o fewn timau i'w gweld yn Atodlen 2 isod.

### Sut i ymuno â'r cyfarfod

Byddwch yn derbyn e-bost gan yr hwylusydd sefydliadol yn eich gwahodd i 'ymuno' â chyfarfod ar-lein ar ffurf gwahoddiad calendr. Gofynnwn i chi beidio â rhannu'r gwahoddiad calendr ar gyfer y digwyddiadau ag unrhyw un arall.

Ar amser eich cyfarfod, cliciwch ar y ddolen '*Join the online meeting*' i gael mynediad i'r cyfarfod. Gellir dod o hyd i'r ddolen yn yr e-bost yn eich gwahodd i'r cyfarfod neu trwy glicio ar y cyfarfod a ddangosir yn eich calendr Outlook. Ymunwch â'r cyfarfod gan ddefnyddio'ch enw llawn i sicrhau ei bod yn hawdd i bawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod eich adnabod.

### Ymddygiad yn y cyfarfod

Gwahoddir cyfranogwyr i gyrraedd pum munud cyn dechrau swyddogol y cyfarfod; bydd hyn yn rhoi amser i chi wirio'ch mynediad a'ch cysylltedd. Gwiriwch eich gosodiadau i sicrhau bod eich **fideo wedi cael ei droi ymlaen a bod eich meicroffon wedi'i dawelu**, cyn i chi bwyso'r botwm '*Join now*'. A fyddechystal â sicrhau eich bod yn ymuno â'r cyfarfod yn brydlon. Pan fyddwch chi'n clicio i ymuno â'r cyfarfod, cewch eich rhoi mewn 'ardal aros' rithwir a chewch eich gadael i mewn i'r cyfarfod ar gyfer dechrau'r cyfarfod.

Pan fyddwch chi'n ymuno â'r cyfarfod, gwnewch yn siŵr bod eich fideo wedi'i alluogi. Gallai fod hyd at 20 o bobl yn ymuno â'r cyfarfod a byddai'n ddefnyddiol o safbwynt y tîm adolygu i allu gweld pawb ar y sgrin, os yw hynny'n bosibl. Os ydych chi'n cael anawsterau o ran lled-

band, efallai y bydd y tîm adolygu'n gofyn i chi ddiffodd eich fideo. Os byddwch chi, am ba reswm bynnag, yn gadael y cyfarfod yn annisgwyl, gallwch ail-ymuno gan ddefnyddio'r ddolen '*join the online meeting*' sydd yn y gwahoddiad e-bost. Os bydd hyn yn digwydd, gwnewch yn siŵr bod eich fideo yn dal ymlaen a bod eich meicroffon wedi'i dawelu o hyd.

Pan fyddwch yn ymuno â'r cyfarfod, gwnewch yn siŵr bod eich meicroffon wedi'i dawelu er mwyn osgoi ymyriad ac atseinio. Gwnewch yn sicr hefyd fod dyfeisiau electronig eraill (fel eich ffôn) yn cael eu cadw i ffwrdd o'ch meicroffon, oherwydd gall y rhain hefyd ymyrryd â'r sain.

Bydd aelod o'r tîm adolygu yn cadeirio pob cyfarfod a bydd aelodau'r tîm yn cymryd eu tro i ofyn cwestiynau i'r grŵp. Byddem yn gofyn i chi ddefnyddio'r ddyfais '*Raise your hand*' i ddangos eich bod am ateb y cwestiwn. Bydd hyn yn rhoi gwybod i'r Cadeirydd, a fydd yn eich gwahodd i siarad. Wrth ateb, cofiwch agor eich meicroffon a'i dawelu eto pan fyddwch wedi gorffen siarad.

Ni fydd cyfarfodydd yn cael eu recordio gan ddefnyddio'r ddyfais '*record*' sydd ar gael trwy'r plattform ar-lein. Fel yn achos pob cyfarfod adolygu QAA, bydd aelod o'r panel yn cymryd nodiadau yn ystod y cyfarfod. Bydd popeth a drafodir yn y cyfarfodydd yn ddienw ac ni chaiff ei briodoli i unigolyn mewn adroddiadau dilynol.

Dim ond ar gyfer materion sy'n ymwneud â rheoli cyfarfodydd (er enghraifft, hysbysu'r tîm o gysylltedd rhyngryd gwael, materion clywedol neu fwriad i siarad) y dylid defnyddio'r ddyfais '*chat*' yn hytrach nag ar gyfer postio atebion i'r cwestiynau a godir. Dylai'r holl atebion i'r cwestiynau a ofynnir gan y tîm gael eu gwneud ar lafar fel y gellir eu cynnwys yn y cofnod ffurfiol o'r cyfarfod.

Byddem yn argymhell eich bod yn aros am saib naturiol yn y sgwrs cyn siarad, er mwyn osgoi torri ar draws unrhyw un sydd eisoes yn siarad. Bydd y Cadeirydd yn monitro hyn a, lle bo angen, efallai y bydd yn rhaid iddo ofyn i bobl gymryd eu tro i siarad.

Ar gyfer adolygiadau yng Nghymru, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cadarnhau bod Safonau'r Gymraeg yn dal i fod yn berthnasol yn yr amgylchedd ar-lein a rhithwir. Ar hyn o bryd, Zoom yw'r plattform mwyaf effeithiol ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Os oes angen cyfieithu ar y pryd, cysylltwch â'ch Swyddog QAA cyn gynted â phosibl er mwyn i ni allu trefnu cyfieithydd ac archebu'r drwydded ar gyfer Zoom. Am arweiniad ar gynnal cyfarfod ar-lein yn ddwyieithog, gweler canllawiau Comisiynydd y Gymraeg: [Cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog](#).

Mae rhagor o wybodaeth am ddefnyddio MS Teams a Zoom i'w gweld yn Atodlen 1 isod.

## Atodlen 1: Hintiau handi


Os yn bosibl, rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio clustffonau, gan y bydd hyn yn aml yn eich darparu â sain gliriach na seinyddion sy'n rhan o'ch gliniadur neu'ch cyfrifiadur personol.

Dylai cysylltiad band-eang sylfaenol fod yn ddigonol i ymgysylltu â MS Teams a Zoom. Os nad yw'ch cysylltiad Wi-Fi bob amser yn sefydlog, mae'n bosib y byddwch am ddefnyddio cebl ether-rwyd i blygio'ch cyfrifiadur yn uniongyrchol i'r llwybrydd.

Gweler isod am ganllawiau ar ddefnyddio Microsoft Teams a Zoom.


### Microsoft Teams

Os yn bosibl, defnyddiwch y fersiwn ap bwrdd-gwaith wedi'i lawrlwytho o Teams yn hytrach na'r fersiwn ap gwe yn eich porwr; rydym wedi canfod bod hwn yn blatfform mwy sefydlog. Os nad oes gennych yr ap Microsoft Teams wedi'i osod ar eich bwrdd-gwaith, ffôn neu dabled, gallwch ymuno â'r cyfarfod trwy'r fersiwn ar-lein o Microsoft Teams trwy glicio ar y ddolen a fydd yn ymddangos ar ôl i chi dderbyn y gwahoddiad i'r cyfarfod. Byddem yn argymhell defnyddio porwr Microsoft Edge i gyrchu Teams, gan nad yw porwyr eraill yn cael eu cynnal yn llawn. Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen Teams (gweler isod) lle gofynnir i chi a ydych chi am agor Teams.




- Os hoffech wybod mwy am ddefnyddio MS Teams, mae fideos defnyddiol i'w gweld yma:  
<https://support.microsoft.com/en-us/office/microsoft-teams-video-training-4f108e54-240b-4351-8084-b1089f0d21d7>
- Yn benodol, ynglŷn ag ymuno â chyfarfodydd:  
<https://support.microsoft.com/en-us/office/join-a-teams-meeting-078e9868-f1aa-4414-8bb9-ee88e9236ee4>

Dyma ddiagram o'r gosodiadau sydd ar gael i chi yn ystod cyfarfodydd Teams:




## Zoom

Os yn bosibl, defnyddiwch y fersiwn ap bwrdd-gwaith wedi'i lawrlwytho o Zoom yn hytrach na'r fersiwn ap gwe yn eich porwr - rydym wedi canfod bod hwn yn blatfform mwy sefydlog. Os nad oes gennych yr ap Zoom wedi'i osod ar eich bwrdd-gwaith, ffôn neu dabled, gallwch ymuno â'r cyfarfod trwy'r fersiwn ar-lein o Zoom trwy glicio ar y ddolen a fydd yn ymddangos ar ôl i chi dderbyn y gwahoddiad i'r cyfarfod. Dylai Zoom weithio'n dda ar unrhyw borwr gwe modern fel Chrome, Safari neu Microsoft Edge. Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen Zoom (gweler isod) lle gofynnir i chi a ydych chi am agor Zoom.



Click **Open Zoom Meetings** on the dialog shown by your browser  
If you don't see a dialog, click **Launch Meeting** below.



Don't have Zoom Client installed? [Download Now](#)

- Os ydych chi am wybod mwy am ddefnyddio Zoom, mae tiwtorialau a fideos defnyddiol i'w gweld yma:  
<https://support.zoom.us/hc/en-us/categories/200101697>

- Yn benodol, ynglŷn ag ymuno â chyfarfodydd:  
<https://support.zoom.us/hc/en-us/articles/201362193-Joining-a-meeting>
- Yn benodol ynghylch gwybodaeth ar gyfer cychwyn gyda gwahanol ddyfeisiau, gan gynnwys gliniaduron, padiau a ffonau a'r gosodiad sydd ar gael i chi yn ystod cyfarfodydd:  
<https://support.zoom.us/hc/en-us/categories/200101697-Getting-Started>

## Atodlen 2: Ynglŷn â'r tîm adolygu

Mae union aelodaeth y tîm sy'n cynnal yr adolygiad yn hyblyg er mwyn mynd i'r afael â natur y sefydliad a chwmpas yr adolygiad. Mae adolygwyr yn uwch aelodau o staff neu'n fyfyrwr profiadol sydd â phrofiad o faterion ansawdd ar lefel sefydliadol.

Mae pob adolygydd yn gyfrifol am y canlynol:

- darllen a dadansoddi'r ddogfennaeth a gyflwynwyd gan y darparwydd
- cymryd rhan yn yr ymweliadau adolygu
- dod i gasgliadau ar sail y wybodaeth a ddaeth i law yn ystod yr adolygiad
- cyfrannu at yr adroddiadau adolygu a rhoi sylwadau arnynt.

Mae rhai adolygiadau'n cynnwys **adolygydd sy'n fyfyrwr** er mwyn dod â phersbectif dysgwr i'r adolygiad. Mae eu cyfrifoldebau yn ystod yr adolygiad yn debygol o ganolbwyntio ar lwybrau ymholi sy'n ymwneud â rheolaeth y sefydliad o brofiad dysgu myfyrwr, gan gynnwys taith y dysgwr, ac ymgysylltiad â myfyrwr.

Mae gan rai adolygiadau (er enghraifft, ELIR yn yr Alban) **adolygydd cydlynu** fel rhan o'r tîm sydd â chyfrifoldeb am gynnal trosolwg o gynnydd y broses adolygu a'i deilliannau. Mae ganddyn nhw gyfrifoldeb penodol am fynd ati'n rhagweithiol i reoli'r adolygiad a'r tîm adolygu. Mae'r adolygydd cydlynu yn cadw cofnod parhaus o gasgliadau a thystiolaeth ategol y tîm. Ar ddiwedd yr ymweliad adolygu, mae'r adolygydd cydlynu yn defnyddio'r cofnod parhaus i gynorthwyo'r tîm a'r Swyddog QAA i baratoi drafft amlinellol o'r adroddiad.

Mae rhai adolygiadau'n cynnwys **adolygydd rhyngwladol** a all gynnig persbectif allanol ychwanegol i ystyriaethau'r tîm o agwedd y sefydliad at sicrhau ansawdd a gwella profiad dysgu myfyrwr. Disgwylir i adolygwyr rhyngwladol feddu ar ystod o wybodaeth a phrofiad a fydd o fudd i'r sefydliad, y broses adolygu, a'r sector addysg uwch ehangach, gan gynnwys gwybodaeth a phrofiad rhyngwladol cymharol. Mae adolygwyr rhyngwladol yn uwch gymheiriaid, wedi'u dethol o sefydliadau addysg uwch priodol neu asiantaethau cysylltiedig. Mae'r penderfyniad i'w cynnwys mewn tîm adolygu ar gyfer adolygiad o unrhyw sefydliad penodol yn seiliedig ar eu harbenigedd a'u profiad, gyda'r nod o sicrhau cyfatebiaeth addas i agwedd strategol a blaenoriaethau'r sefydliad o ran gwelliant.

Mae pob adolygiad yn cael ei reoli gan **uwch swyddog QAA**, sy'n darparu cyngor i'r sefydliad ynghylch eu paratoadau ar gyfer yr adolygiad ac yn cynorthwyo'r tîm adolygu yn eu dadansoddiad cychwynol o ddogfennaeth. Mae'r swyddog QAA yn mynd gyda'r tîm yn ystod rhan o'u hymweliadau â'r sefydliad, neu'r holl ymweliad, gan ddarparu cyngor fel sy'n briodol. Mae'r swyddog QAA yn gyfrifol am brofi bod canfyddiadau'r tîm adolygu yn seiliedig ar dystiolaeth ddigonol ac amlwg, ac am olygu'r adroddiadau.

## Adnoddau pellach

Mae mwy o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddir gan dimau adolygu ar gael ar [wefan QAA](#).



## Atodlen D: Llinell amser a gweithgareddau adolygiad o ddarparwyr

Llinell-amser	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4
	Adolygiad wrth-y-ddesg	Adolygiad wrth-y-ddesg ar gyfer darparwyr sydd wedi mynd trwy AGA yn 2020-21	Ymgysylltiad ag adolygwyr (heb o reidrwydd fod wedi cwblhau ymatebion i'r cwestiynau)	Ymgysylltiad ag adolygwyr (ar ôl cwblhau ymatebion i'r cwestiynau)
Heb fod yn hwyrach na 3 wythnos cyn yr adolygiad	Mae'r darparwydd yn dechrau cwblhau'r templed ar gyfer sail dystiolaeth a chwblhau ymatebion i'r cwestiynau, gan gyfeirnodu dystiolaeth at yr ymatebion i'r cwestiynau.	Mae'r darparwydd yn mapio'r sail wybodaeth o'r AGA i'r templed ar gyfer y sail dystiolaeth ac yn nodi gwybodaeth atodol / ddiweddarach, fel sy'n briodol.  Mae darparwydd yn croesgyfeirio'r rhestr dystiolaeth at y cwestiynau perthnasol ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol y maent am ei darparu (er enghraifft, lle mae fersiwn fwy diweddar o ddogfen).	Mae'r darparwydd yn cwblhau'r templed ar gyfer sail dystiolaeth.  Gall y darparwydd ateb rhai o'r cwestiynau yn ystod y cam hwn o'r broses. Mae unrhyw ymatebion yn ystod y cam hwn yn darparu canllaw ar gyfer ymgysylltu â'r adolygydd, yn hytrach na bod â statws cyflwyniad cynhwysfawr.	Mae'r darparwydd yn cwblhau'r templed ar gyfer sail dystiolaeth ac yn cwblhau ymatebion i'r cwestiynau, gan gyfeirnodu dystiolaeth at yr ymatebion i'r cwestiynau.
1 wythnos cyn yr adolygiad		Os yw'r darparwydd yn dymuno cynnal deialog gyda'r adolygydd ( <b>Opsiwn 3 neu 4</b> ), mae'r darparwydd yn uwchlwytho ei restr dystiolaeth ar y pwynt hwn.	Mae'r darparwydd yn uwchlwytho'r sail dystiolaeth ac unrhyw ymatebion i gwestiynau fel sy'n berthnasol.  Mae'r darparwydd yn cynnig yr amserlen a'r cyfranogwyr ar gyfer y cyfarfodydd, yn ogystal â pha feysydd ar gyfer cwestiynau sydd i'w cynnwys ym mha gyfarfod.  Mae'r adolygydd yn dadansoddi'r dystiolaeth ac yn dechrau cwblhau nodiadau strwythuredig wrth baratoi ar gyfer deialog gyda'r darparwydd.	Mae'r darparwydd yn uwchlwytho'r sail dystiolaeth a'r ymatebion i'r cwestiynau.  Mae'r darparwydd yn cynnig yr amserlen a'r cyfranogwyr ar gyfer y cyfarfodydd, yn ogystal â pha feysydd ar gyfer cwestiynau sydd i'w cynnwys ym mha gyfarfod.  Mae'r adolygydd yn dadansoddi'r dystiolaeth ac yn dechrau cwblhau nodiadau strwythuredig wrth baratoi ar gyfer deialog gyda'r darparwydd.

0 wythnos	<p>Mae'r darparrydd yn uwchlwytho'r rhestr dystiolaeth ac unrhyw dystiolaeth ategol.</p> <p>Mae'r adolygydd yn cwblhau dadansoddiad o'r sail dystiolaeth ac yn cwblhau nodiadau strwythuredig. Mae'r adolygydd yn nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu hegluro ac arferion sydd o bosibl yn dod i'r amlwg.</p>	<p>Mae'r darparrydd yn uwchlwytho'r rhestr dystiolaeth a'r dogfennau, ynghyd â'r ymatebion i gwestiynau y cyfeirir atynt yn y sail dystiolaeth.</p> <p>Mae'r adolygydd yn cwblhau dadansoddiad o'r sail dystiolaeth ac yn cwblhau nodiadau strwythuredig. Mae'r adolygydd yn nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu hegluro ac arfer sydd o bosibl yn dod i'r amlwg.</p>	<p>Mae ymgysylltiad ag adolygwyr yn digwydd: hyd at ddau gyfarfod gyda staff a ddewisir gan y darparrydd.</p> <p>Ar sail y cyfarfodydd hyn, mae'r adolygydd yn cwblhau'r nodiadau strwythuredig ac yn nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu hegluro ac arfer sydd o bosibl yn dod i'r amlwg.</p>	<p>Mae ymgysylltiad ag adolygwyr yn digwydd: hyd at ddau gyfarfod gyda staff a ddewisir gan y darparrydd.</p> <p>Ar sail y cyfarfodydd hyn, mae'r adolygydd yn cwblhau'r nodiadau strwythuredig ac yn nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu hegluro ac arfer sydd o bosibl yn dod i'r amlwg.</p>
1 wythnos ar ôl yr adolygiad	<p>Anfonir y nodiadau strwythuredig at y darparrydd, ynghyd ag ac unrhyw bwyntiau sydd angen eu hegluro, gan yr adolygydd.</p> <p>Rhoddir wythnos i ddarparrydd ymateb.</p>	<p>Anfonir y nodiadau strwythuredig at y darparrydd, ynghyd ag ac unrhyw bwyntiau sydd angen eu hegluro, gan yr adolygydd.</p> <p>Rhoddir wythnos i ddarparrydd ymateb.</p>	<p>Anfonir y nodiadau strwythuredig at y darparrydd, ynghyd ag ac unrhyw bwyntiau sydd angen eu hegluro, gan yr adolygydd.</p> <p>Rhoddir wythnos i ddarparrydd ymateb.</p>	<p>Anfonir y nodiadau strwythuredig at y darparrydd, ynghyd ag ac unrhyw bwyntiau sydd angen eu hegluro, gan yr adolygydd.</p> <p>Rhoddir wythnos i ddarparrydd ymateb.</p>
2 wythnos ar ôl yr adolygiad	<p>Mae'r darparrydd yn cyflwyno sylwadau ac ymatebion i bwyntiau oedd angen eu hegluro. Gall y darparrydd gyflwyno gwybodaeth / tystiolaeth ychwanegol os yw'n dymuno gwneud hynny.</p> <p>Mae'r adolygydd yn llunio ffurf derfynol o'r nodiadau strwythuredig sy'n cael eu hanfon at y darparrydd.</p>	<p>Mae'r darparrydd yn cyflwyno sylwadau ac ymatebion i bwyntiau oedd angen eu hegluro. Gall y darparrydd gyflwyno gwybodaeth / tystiolaeth ychwanegol os yw'n dymuno gwneud hynny.</p> <p>Mae'r adolygydd yn llunio ffurf derfynol o'r nodiadau strwythuredig sy'n cael eu hanfon at y darparrydd.</p>	<p>Mae'r darparrydd yn cyflwyno sylwadau ac ymatebion i bwyntiau oedd angen eu hegluro. Gall y darparrydd gyflwyno gwybodaeth / tystiolaeth ychwanegol os yw'n dymuno gwneud hynny.</p> <p>Mae'r adolygydd yn llunio ffurf derfynol o'r nodiadau strwythuredig sy'n cael eu hanfon at y darparrydd.</p>	<p>Mae'r darparrydd yn cyflwyno sylwadau ac ymatebion i bwyntiau oedd angen eu hegluro. Gall y darparrydd gyflwyno gwybodaeth / tystiolaeth ychwanegol os yw'n dymuno gwneud hynny.</p> <p>Mae'r adolygydd yn llunio ffurf derfynol o'r nodiadau strwythuredig sy'n cael eu hanfon at y darparrydd.</p>

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Cyhoeddwyd - Mai 2021

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch 2021  
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL  
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 a SC037786

Ffôn: 01452 557000

Gwe: [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)